| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Mehefin 27ain 2022 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae paratoi ac adolygu Cynllun Rheoli yn un o gyfrifoldebau Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol o ganlyniad i Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol rôl i'w chwarae yn y broses o baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli.

1.2 Cyfnod gweithredu y Cynllun Rheoli presennol AHNE Llŷn yw 2015-20 a'r bwriad oedd adolygu'r Cynllun yn ystod 2019/2020. Yn anffodus mae nifer o ffactorau wedi amharu ar yr amserlen yn cynnyws y pandemig, gwaith ar brosiectau eraill a materion capasiti.

## 2.0 Y BROSES ADOLYGU

2.1 Wrth adolygu'r Cynllun bydd angen dilyn canllawiau wedi eu cyhoeddi ar baratoi ac adolygu'r Cynlluniau Rheoli gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru rai blynyddoedd yn ôl.

2.2 Hefyd bydd angen cymryd ystyriaeth o wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal, cynlluniau a strategatehau perthnasol, amcanion cadwraeth, prosiectau lleol ayb.

## 3.0 CYNNYDD HYD YMA

3.1 Fel yr adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor mae peth gwaith cefndirol wedi ei wneud ar gyfer adolygu'r Cynllun Rheoli.

3.2 Hefyd comisiynwyd diweddariad o Adroddiad o Gyflwr yr AHNE. Mae'r adroddiad yma yn cynnwys gwybodaeth am gyflwr gwahanol nodweddion AHNE Llŷn a'r pwysau arnynt. Y bwriad yw cyfiethu'r holl ddogfen hon ond fel cam cychwynnol mae'r Uned wedi cyfieithu y prif ganfyddiadau a'u darparu i aelodau'r Cydbwyllgor. Gwler Atodiad 1.

## 4.0 Y CAMAU NESAF

4.1 Mae'r Uned AHNE yn y broses o baratoi briff ar gyfer comisiynnu Ymgynghorydd i ddiweddaru Cyd-destun y Cynllun. Bydd y gwaith yma yn golygu diweddaru gwybodaeth am gynlluniau, strategaethau, deddfau ayb sy'n berthnasol i Gynllun Rheoli'r AHNE. Anelir i gwblhau'r gwaith yma dros yr Haf/Hydref eleni.

4.2 Yn dilyn y camau yma bydd yr Uned AHNE yn adolygu nodau, amcanion a pholisiau y Cynllun Rheoli presennol ac yn awgrymu diweddaru/ newid rhai agweddau er ymateb i wybodaeth newydd a/neu newid mewn amgylchiadau. Anelir i adrodd yn ôl ar hyn i'r Cydbwyllgor yn chwarter olaf 2022.

4.3 Bwriedir symud ymlaen yn 2023 i ddiweddaru'r Cynllun Gweithredu sydd yn cynnwys manylion am y gwaith yr anelir i'w gwblhau o fewn cyfnod gweithredol y Cynllun. Hefyd bydd angen adolygu'r Asesiad Amgylcheddol a Rhywogaethau sydd ynghlwm â'r Cynllun.

4.4 Yna bydd cyfnod o ymgynghori ar y Cynllun diwygiedig drafft. Byddwn yn cysylltu gyda mudiadau, sefydliadau ac uniogolion trwy whanaol ddulliau i gael eu barn a'u safbwyntiau ar y Cynllun.

4.5 Bydd gan y Cydbwyllgor rôl allweddol yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a phenderfynnu ar newidadau a ffurf terfynnol y Cynllun. Anelir i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli diwygiedig cyn diwedd 2023.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Derbyn yr wybodaeth.